




Un o derfysgoedd y Siartwyr y tu allan i westy'r Westgate Casnewydd.
(Trwy ganiatâd y "Mansell Collection")

DYDD MAWRTH, 2 AWST 1988

GWERINIAETH Y SILWRIAID
GWYN A. WILLIAMS



TUESDAY, 2 AUGUST 1988

THE SILURIAN REPUBLIC
GWYN A. WILLIAMS

Un mewn cyfres o ddarlithoedd a draddodwyd yn y Babel Llen yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988.

Gweriniaeth y Silwriaid

I ddechrau, ga i ddangos y faner ma i chi. Baner Siartwyr Cymru. HTV a fu'n gyfrifol am ei gwneud hi er mwyn ei chwifio ar y sgrîn am ddeg eiliad. Y fi a'i cafodd hi wedyn. Ddyweda i ddim rhagor—dim ond dweud i fi ei meddiannu'n deg yn ôl Cyfreithiau Hywel Dda—Llyfr Blegywryd wrth gwrs.

Hugh Williams, y cyfreithiwr o ganolbarth Cymru a fu'n gweithio gyda'r cynhyrchwyr gwlanen ar lannau Hafren a fu'n gyfrifol am ei dyfeisio. O Bowys symudodd i Sanclêr a chefnogi'n ddiweddarach ymgyrchoedd y Beca. Fe, er enghraifft, a wnaeth lansio'r gynta o Gymdeithasau'r Gweithwyr neu gyfrinfa gynta'r Siartwyr yng Nghymru sef yn nhref sans-culotte gynhyrfus Caerfyrddin a fe hefyd oedd y cynrychiolydd cyntaf o gymoedd Morgannwg i fynychu Confensiwn y Siartwyr yn Llundain. Ym misoedd Ebrill a Mai 1839 ceisiodd y Confensiwn hwnnw ymsefydlu fel grym gwrth-seneddol, i ddymchwel y Tŷ Cyffredin oligarchaidd a llwgr a sefydlu yn ei le ddemocratiaeth gyflawn a phoblogaidd.

Bardd oedd Hugh Williams. Yn arferol o dan faner werdd yr ymgyrchai'r Siartwyr ond baner drilliw—gwyrrdd, glas a gwyn—yn nhraddodiad y Chwyldro Ffrengig oedd yr un a luniodd Williams. A gwyrrdd, glas a gwyn wrth gwrs yw lliwiau Gorsedd Beirdd Ynys Prydain a gawsai ei sefydlu gan Iolo Morganwg genhedlaeth ynghynt a bwriad gwreiddiol Iolo oedd sefydlu Urdd o Gofiaduron i Weriniaeth Cymru.

Ehangu'r sumboliaeth a wnaeth Hugh Williams. Gwyrrdd oedd y ddaear, glas oedd y nefoedd a gwyn ryw ddydd a fyddai'n goresgyn nef a daear yn enw cyfiawnder. Un gair sef CYFIAWNDER a gariai fersiwn Gymreig y faner hon. CYFIAWNDER oedd hefyd ar faner Merched Beca yn 1843 pan gerddasant ganol dydd drwy dref Caerfyrddin cyn cael eu goresgyn gan y Dragoons, a dyna hefyd a ddigwyddodd i wŷr Gwent yn 1839 a gwŷr Merthyr yn 1831—cael eu saethu i lawr gan y milwyr. Onid Tom Paine a ddywedodd "Tyranny, like hell, is not easily conquered".

Blwyddyn dyngedfennol oedd 1831. Nid gwŷr a ddihoenai yng nghrafangau tlodi a orymdeithiai ym Merthyr a Chasnewydd. I'r gwrthwyneb, roedden nhw ymhlith rhai o'r gweithwyr medrusaf a'r gweithwyr a dynnai'r gyflog orau yn y wlad. Yn erbyn gwaradwydd ac annhegwch o bob math y gwrthryfelent; roedden nhw am ennill cydnabyddiaeth i'w gwerth, i'w statws ac i'w hurddas. Syniad oedd y tu cefn i'r gorymdeithio. Syniad y gellid ei grisialu mewn un gair. Diwygio yn 1831, y Siarter yn 1839. Am ddemocratiaeth boblogaidd neu am Weriniaeth fel yr hoffent ei galw yr oeddent yn ymladd. Cawsai Merthyr ei chyffroi am y tro cyntaf gan y ddelfryd hon yn 1831 pan fu i argyfwng lleol godi ei ben yr un pryd ag argyfwng cenedlaethol y Mesur Diwygio (Reform Bill)—ac ymgyrch fawr ymhlith y dosbarth gweithiol am hawliau gwleidyddol a hawliau undebau llafur. Dyna'n fras gefndir Terfysg Merthyr. Cododd y gweithwyr yn erbyn y milwyr, eu trechu ddwywaith a dal yr ardal am bedwar diwrnod. Ar ôl cael eu trechu ymladdasant un o'r brwydrau cau mas mwyaf chwerw yn holl hanes tywyll y maes glo cyn cael eu llwgu i ildio.

Methiant fu eu hymdrech i sicrhau cefnogaeth y maes glo cyfan. Ond ar y diwrnod diwethaf, yr oedd rhwng 10,000 a 20,000 o wŷr Sir Fynwy ar eu ffordd i Ferthyr ac o fewn ychydig wythnosau ymddangosai 'Reform' fel slogan ar y papurau rhybuddio a ddosberthid gan y "Scotch Cattle" sef y terfysgwyr cudd a chyfrwys a weithiai ymhlith glowyr Gwent. I'r cymunedau glo yn rhannau deheuol y cymoedd y perthynent yn bennaf, ac er eu bod yn iachach nag ardaloedd gweithfeydd haearn y blaenau, digon caled a llwm oedd hi yno hefyd. Cymunedau un dosbarth oeddent i bob pwrpas a'r gweithwyr yn cael eu llethu gan y rheidrwydd i brynu eu nwyddau yn siop y cwmni—yn syrthio i ddyled ac yn cwffio'n ddiddiwedd â'u cyflogwyr,—a llawer o'r rheiny'n Gymry twyllodrus a ymladdai'n barhaus i gael y ddau ben llinyn ynghyd.

Yr oedd trefi'r gweithfeydd haearn yn fwy cymhleth gyda dosbarth mwy cymysg o bobl. Y fwyaf cymhleth ohonyn nhw i gyd oedd ardal Merthyr lle ceid traddodiad a ddeilliai o gyfnod y Chwyldro Ffrengig o ddemocratiaeth Jacobin

ddosbarth canol a dosbarth canol is a'r Undodwyr yn gyfrifol yn amlach na pheidio am ei hybu. Ar ôl 1832, cynrychiolid Merthyr gan ei Haelod Seneddol ei hun. Gwleidyddiaeth dair ochrog oedd gwleidyddiaeth Merthyr—Josiah John Guest yr A.S. Rhyddfrydol, radicaliaeth y dosbarth canol a'r crefftwyr a'r dosbarth gweithiol di-bleidlais. Yma, gellir olrhain cyn-hanes Siartaeth yn yr ymgiprys trionglog hwn trwy etholiadau 1835 a 1837.

Yn nhrefi gweithfeydd haearn Blaenau Gwent, nid oedd hyn mor amlwg o bell ffordd. Yr oedd amryw o nodweddion Merthyr yn amlwg yma eto ond heb y ffocws neu'r canolbwynt pendant a geid ym Merthyr. Yn ddi-os, yr un oedd yr ysbryd—a gellir ei synhwyro'n bendant y tu ôl i'r ymgyrchu o blaid undebau llafur Robert Owen yn 1834 a 1835, yn y frwydr tros Ddeddf y Tlodion ac mewn sylwadau i'r Wasg a lithrodd trwy rwyd ohebol y papurau lleol gwrthwynebus. Yng Ngwent, fodd bynnag, wedi 1830 glowyr y cymoedd deheuol oedd ar flaen y gad. Yn ystod streic gyffredinol 1830 fe wnaeth y gwŷr a'r gwragedd hyn a oedd mor gyfarwydd â chwffio ddatblygu system gyfrwys dros ben i ddal eu gafael ar eu lleoedd gwaith a'u cymunedau. Dyma bobl fwyaf proletaraidd y maes glo a nhw hefyd oedd y rhai mwyaf diwylliedig. Yn eu rhengoedd yr oedd beirdd a ganai'n Gymraeg a Saesneg, cyfreithwyr pen pentan—ac ni phetrusent ddefnyddio cyfreithwyr a meddygon cyfeillgar i hybu eu hachos.

Digon parod oedden nhw hefyd i ddefnyddio eu 'Scotch Cattle'. Mae haneswyr heb gydymdeimlad ag achos y gweithwyr wedi myned allan o'u ffordd i orbwysleisio natur gyntefig a threisgar y 'Scotch Cattle'. Beth oedd e mewn gwirionedd ond mudiad gwrthwynebu a phrotestio soffistigedig ac effeithiol; defnyddid trais pan fyddai'r amgylchiadau'n mynnu hynny. Ei nod oedd sicrhau rheolaeth drwy gyfrwng cadernid ysgwydd wrth ysgwydd. Un o'u harfau mwyaf effeithiol oedd hiwmor—hiwmor tywyll Cymreig a allai droi llawr y llys barn yn lwyfan ffars. Byddai Twm Siôn Cati yn falch o'u harddel. Roedd tebygrwydd mawr rhwng y 'Scotch Cattle' a Merched Beca. Ac ni ddylid synnu, cefnderwyr i Ferched Beca oedd amryw

byd ohonynt. Er maint y mewnlifo o Loegr ac o fannau eraill, llwyddid er hynny i'w troi a'u moldio'n frid newydd, y Deheuwy'r Cymreig—a Chymraeg oedd iaith canran sylweddol o'r boblogaeth.

Amgylchynid gweithgareddau'r 'Scotch Cattle' a'r Siartwyr gan fur trwchus o ddistawrwydd na allai'r awdurdodau mwyaf taer dorri trwyddo. Roedd yn ddiysgog gan mai Cymraeg oedd iaith y cynllwynwyr. Cadarnle'r 'Scotch Cattle' oedd y Coed-duon ac yno hefyd y ceid y Siartwyr mwyaf di-droi'n ôl ac ymroddgar. Yn 1839 pan ddaeth eu harwr mawr, yr areithiwr tanbaid Henry Vincent, i fyny o orllewin Lloegr gyda'i bapur newydd, y Western Vindicator a gynhwysai newyddion am Gymru'n bennaf, fe'i derbyniwyd yn null traddodiadol y Siartwyr—tyrfaoedd ar y stryd, cant o ferched yn eu ffrogiau gwyn yn chwifio baneri gwyrdd, rali fawr y tu allan i'r Coach and Horses yn y Coed-duon ac yna araith ysgubol gan Vincent. "In this place, a few thousand armed men in the hills could successfully defend it. Wales would make an excellent Republic. To your tents, O Israel! With one heart, one voice, and one blow, perish the privileged orders! Death to the aristocracy! Up with the people and the government they have established." Ac i ddiweddu, bonllef wrth gwt bonllef, canu a thyngu i fyw a marw dros y Siarter. Yna i'r caeau o gwmpas y Greyhound am noswaith o ganu penillion (tybed beth oedd y geiriau a pha mor effeithiol oedd y delyn fel offeryn taro!)

Yn y cymoedd, llechai Siartaeth fel Atlantis yn disgwyl am i rywun ei chyffwrdd a'i chodi i'r wyneb. Y rhywun hwnnw oedd Vincent—tenau a pharabllus—a chryn ffefryn gyda'r gwragedd.

Yn llythrennol, mae John Frost, fel y gwyddoch i gyd, wedi gadael ei ôl a'i enw yng Nghasnewydd. O ran natur, roedd Frost yn wahanol i Siartwyr y Cymoedd. Roedd ei radicaliaeth yn hŷn—ac yn debycach i radicaliaeth wrth-aristocrataidd William Cobbett a fu'n brwydro'n ddidor yn erbyn y system neu 'The Thing' fel y galwai ef hi. Yn ôl Frost, gartref roedd man cychwyn y 'Thing'—yng ngweidyddiaeth tref Casnewydd a oedd yn llwgr mor aml â pheidio.

Gŵr tawel o daldra cymedrol oedd John Frost. Yng nghylchoedd radical Llundain y cawsai ei fagu ac ar ôl treulio cyfnod byr ym Mryste daeth i Mill Street, Casnewydd i weithio fel teiliwr a draper. Dechreuodd ymddiddori yn y cythrwfl a godasai yn y dref yn erbyn y modd y rheolid pawb a phopeth gan deuluoedd pwerus fel y Somersets, Dugiaid Beaufort a Morganiaid Tredegar. Gydag ef yr oedd Samuel Etheridge yr argraffydd, John Dickenson y cigydd a William Edwards, cawr o ddyn a fuasai unwaith yn bregethwr cyn gadael y pwlpud a throï'n bobydd. Yn amlach na pheidio, fel "Mad Edwards, the Baker" y byddai'r Wasg lidus yn cyfeirio at William Edwards.

A beth am y Wasg? Os cewch chi achos rywbryd i ddarllen y Monmouthshire Merlin cofiwch eiriau Henry Vincent ym Mhont-y-pŵl yn 1839... "Oh! the damned press! What an infernal engine it is! That which might be the means of rescuing mankind from bondage is used as a formidable means of warping the mind struggling to be free..."

Clywch, clywch!

Oherwydd ei ymgyrchu, dedfrydwyd Frost i garchar gan Thomas Prothero, cyfreithiwr a chlerc diegwyddor tref Casnewydd. Hynny neu beidio, dal ati i weithio a brwydro drwy dymhestloedd enbyd y tridegau a fu hanes John Frost. Bu'n cynorthwyo i ffurfio Undeb Gwleidyddol yn 1831, yn cefnogi ymgyrch Benjamin Hall yn erbyn yr oligarchau a bod yn dyst o frwydrau Reginald Blewitt, Llantarnam. Canlyniad hynny fu i Frost gael ei ddadrithio'n llwyr gan y diwygwyr "It is now clear as the sun at noon day that the Reform Bill was a humbug" oedd ei ddyfarniad. Aeth rhagddo i frwydro nid yn unig yn erbyn y Whigiaid a'r Toriaid ond i'w ddiffinio ei hun fel radical yn nhraddodiad Tom Paine gan hawlio pleidlais i bob oedolyn, democratiaeth seneddol gyflawn ynghyd â hawliau i'r bobl. I gyrraedd y nod hwnnw, yr oedd yn barod i ystyried chwyldro—chwyldro heddychlon os byddai'n bosibl.

Yng Nghasnewydd, a weddnewidiwyd yn sgil y Ddeddf Gorfforaethau Dinesig, fe'i gwnaed yn ynad a Maer y dref yn 1836. Yn rhinwedd ei swydd fel ynad, bu'n brwydro yn erbyn

yr Arglwydd John Russell, yr Ysgrifennydd Cartref, cyn cael ei ddiarddel o wasanaethu ar y fainc. Parhau i frwydro hyd y diwedd a fu ei hanes—brwydro yn erbyn ei gyd-drefwyr a'i gyd-Cymry sef y bobl hynny a fyddai yn eu galw eu hunain yn Ddiwygwyr. Dyma Thomas Prothero a Thomas Phillips (Syr Thomas Phillips wedi hynny), er enghraifft, a aeth ati o ddifri i amddiffyn Cymru yn sgîl y Llyfrau Gleision tra'n parhau i garcharu Cymry a ddymunai amddiffyn eu gwlad mewn ffordd fwy uniongyrchol. Fe wnâi'r tri gasau ei gilydd gyda'r angerdd hwnnw sydd mor nodweddiadol, fe ymddengys, o wleidyddiaeth drefol yng Nghymru (Fe ddeallwch mai fel un o wŷr Merthyr rwy'n dweud hyn). Nid yw'n syndod yn y byd felly i Frost ymuno â chyfrinfa'r Siartwyr pan sefydlwyd un yng Nghasnewydd yn haf 1838—ac yn ddiweddarach iddo ddod yn arweinydd arni.

Hynny neu beidio, fuodd e erioed ar yr un donfedd â Siartwyr y Cymoedd. Ymhlith y Siartwyr cynharaf, ceid digonedd o wŷr o blith y dosbarth canol a barhaodd yn deyrngar hyd y diwedd. Ceid hefyd yn eu rhengoedd amryw byd o grefftwyr teyrngar. Ond wrth i Siartaeth ysgubo drwy'r cymoedd yn gynnar yn 1839, fe'i meddiannwyd mewn dim o dro gan y glowyr, gŵyr y gweithfeydd haearn, y gwragedd—y proletariaid. Symudai pethau'n rhy gyflym i Samuel Etheridge, yr argraffydd, ac fe ymddiswyddodd. Doedd John Frost ddim yn gallu deall y bobl hyn; aeth rhai cyn belled â'i ddrwgdybio. Ar ei waethaf ei hun y daeth yn arweinydd. Parhaodd yn deyrngar. Mor gynnar â mis Mai ar ôl i'r Ddeiseb a gyflwynwyd gan y Siartwyr i'r Senedd gael ei gwrthod, yr oedd Siartwyr yn Ne Cymru yn cynllunio 'Cyfodiad' ac yn cyfuno â Siartwyr radical yn Lloegr. Yr oedd Frost yn llawn amheuon, ond cytuno wnaeth e. Ar y funud olaf, a Frost ar un arall o'i deithiau drwy Loegr, fe glywodd nad oedd gwŷr gogledd Lloegr yn bwriadu codi a gwrthryfela.

Rhuthrodd tua thre i dde Cymru i geisio atal y gwrthryfel. Yng nghyfarfodydd tyngedfennol arweinwyr y Siartwyr yn Dukestown, Sirhywi ar 28 Hydref ac yn y Coed-duon ar 1 Tachwedd, fe'i trechwyd. Doedd dim troi'n ôl i fod "I might as well shoot myself as try to stop them now," meddai Frost

wrth un o'i ffrindiau. Y pryd hwnnw gallai John Frost, diysgog ei farn ond tyner o galon, fod wedi rhoi'r gorau iddi a throï ar ei sawdl. Wnaeth e ddim. Fe oedd ar flaen yr orymdaith i Gasnewydd. Ac fe gawn ein hatgoffa yn y cyswllt hwn o'r sylw cofiadwy hwnnw a wnaed, medden nhw, gan arweinydd y gweithwyr yn ystod y Chwyldro Ffrengig yn 1848: "I must follow them. I am their leader." Ond Frost oedd y llyw ac yntau'n gwybod yn ei galon mai methu a fyddai eu hanes nhw. Ac fe ddioddefodd yn sgîl hynny. Enwyd un o sgwariau'r dre ma er cof amdano. Mae'n haeddu pob rhyw glod ac anrhydedd a bellach mae'n un o enwogion ac yn un o ferthyron gwerin Cymru. Ar ei waethaf ei hun y cymerodd yr awenau, ond nid yw ar sail hynny fymryn yn llai o arwr.

Arwyr a merthyron oedden nhw bob un. Ym misoedd cynnar 1839 ysgubwyd cymoedd De Cymru gan y Siartwyr a'u gobeithion. Mae'n bwysig ein bod yn amgyffred maint a graddfa'r ymgyrchu a'r cynllunio a oedd ynghlwm wrth yr ymdrech hon. Llwyddodd dau o'n haneswyr, David Jones ac Ivor Wilks, i ddangos bod gan y Siartwyr pan oeddent yn eu hanterth ddechrau haf 1839 fan lleiaf 50 o gyfrinfeydd yng nghymoedd Gwent a Morgannwg gyda 25,000 o aelodau. Ceiniog yr wythnos oedd eu tâl aelodaeth, ond ar ôl cymryd chwyddiant i ystyriaeth, rhaid cofio fod hyn bron iawn 50 gwaith cymaint a thâl aelodaeth presennol Plaid Cymru. Mynychent gyfarfodydd poblogaidd yn wythnosol a gweithio cynllun soffistigedig ac effeithiol, a hynny yn yr iaith Gymraeg, i sicrhau democratiaeth o'r canol. I fod yn barod am y gwrthdrawiad, buont wrthi'n ddyfal yn casglu cynifer o ynnau ag a allent ac yn cynhyrchu ar y slei arfau rhyfela eraill yn y gweithfeydd haearn ac yn yr ogofau cudd a oedd ganddynt yn yr ucheldir ar gyrion y Bannau. Buont hefyd yn dysgu ar eu cof y llawlyfr milwra, *Defensive Instructions for the People* a gawsai ei baratoi gan Bwyliad ac un o hen filwyr Napoleon.

Roeddent yn barod i ymladd ac yn barod i farw tros eu hachos. Fel hyn yr ysgrifennodd George Shell, saer dodrefn 19 oed at ei rieni cyn mynd lawr o Bont-y-pŵl i Gasnewydd: "I shall this night be engaged in a struggle for freedom and

should it please God to spare my life I shall see you soon, but if not grieve not for me, I shall fall in a noble cause" Trannoeth lladdwyd George Shell y tu allan i'r Westgate Hotel yng Nghasnewydd. Roedd wedi ceisio saethu Maer Casnewydd. Fe'i saethwyd gan y milwyr—tair bwled trwy'i frest a bu'n ddadfyw am deirawr.

Ydych chi'n sylweddoli beth a olygai hyn oll? Yr oedd 25,000 o wŷr yn golygu fod un o bob pump o'r oedolion yn perthyn i Siartwyr Cymru. Dyma'r ymgyrch fwyaf o'i bath yn hanes Cymru—hynny yw, cyn y gorymdeithiau protest mawr hynny yn erbyn y Means Test yn 1935. A'r fath bobol, yn wŷr ac yn wragedd, oedden nhw! Llwyddodd Ivor Wilks i olrhain 38 o blith y 50 cyfrinfa. Cyfrinfeydd y wragedd oedd wyth ohonynt. Dyma'r tro cyntaf yn hanes gwleidyddol Cymru i wragedd gymryd rhan ar y raddfa hon, ac yr oedd iddynt yn ogystal swyddogaeth ganolog yn yr ymgyrchu. Anogodd Zephaniah Williams o Nant-y-glo y wragedd priod i beidio cysgu gyda'u gwŷr nes y byddai pob un o'r rheiny wedi ymuno â'r Siartwyr. Ym Merthyr y ceid y gefnogaeth gryfaf; Siartwyr y Grymoedd Moesol i raddau oedd gwŷr Merthyr a Siartwyr y Grymoedd Corfforol oedd gwŷr y Coed-duon. Dyna Morgan Williams, er enghraifft, gwehydd, mathemategwr ac Undodwr a adnabyddid fel yr Young Mountain Solomon ac a hanai o deulu o delynion. Fe a fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r papur newydd cyntaf i'r dosbarth gweithiol yng Nghymru. Papur dwyieithog oedd y Gweithiwr/The Workman 1834, ac yn dilyn cythrwfl Casnewydd, cychwynnodd y papur Siartaidd pennaf ohonynt i gyd sef Udgor Cymru/The Trumpet of Wales yn 1840. Gydag ef yr oedd John Thomas, Ieuan Ddu o Gaerfyrddin a ffrind Zephaniah Williams a fu'n gyfrifol am gychwyn eisteddfodau rhydd-feddyliol eu naws yn ardal Merthyr. Roedd Ieuan Ddu yn gerddor. Bu'n dysgu Joseph Parry a chyflwynodd Messiah Handel i gorau Gymru gyda chanlyniadau ysgubol. Un o'r Siartwyr ydoedd yntau.

I lawr ym Mhontypridd roedd y Dr. William Price, mab i offeiriad, Cymrodor o Goleg yr Iesu Rhydychen ac aelod o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon yn gweithio fel doctor y cwmni cynhyrchu cadwynau. Flynyddoedd yn ddiweddarach ar ôl dod o dan ddylanwad Iolo Morganwg, ymunodd

â'r Derwyddon gan fabwysiadu nifer o syniadau anghyffredin a dweud y lleiaf. Credai rhai nad oedd yn hanner call. Yn sicr roedd yn ddigon call yn 1839, ac os colli ei synhwyrâu wedi hynny a fu ei hanes, mae'n bosibl egluro hynny a dala y byddai'r math o Gymru yr heneiddiodd ef ynddi yn peri i unrhyw Gymro sensitif golli ei bwyll. Yn ddi-os, doedd e ddim yn orffwyll yn 1839. I'r gwrthwyneb, roedd yn sylwebydd arbennig o graff a chreodd argraff ffafriol dros ben ar y Fonesig Charlotte Guest. Gydag ef yr oedd William David, mab i siopwr o Ben-y-graig, ac arweinydd glowyr y Rhondda.

Ym Mlaenau Gwent y trigai Zephaniah Williams. Hanai o deulu amaethyddol llewyrchus yn Argoed, Bedwellte a rhoes i fyny ei swydd fel agent mwngloddio a phen glowr yn Sirhywi i gadw'r Royal Oak yn y Blaina ynghyd â hybu rhydd-feddyliaeth "Pe bai Iesu Grist wedi byw yn Coalbrookvale", meddai, "fe fyddai'r ynadon wedi tynnu ei dŷ e lawr flynyddoedd yn ôl". Roedd Zephaniah Williams yn ŵr sylweddol. Ar ôl cael ei alltudio i Awstralia fe wnaeth ei ffortiwn wrth werthu glo a cholli pob dimai wedi hynny. Roedd 'na ddigon o bobl yr un fath ag e. Er enghraifft, dyna David Lewis y crydd a gadwai'r King Crispin Inn gerllaw Bryn-mawr (Sant Crispin oedd nawddsant y cryddion) a'r Siartydd gorau yn y deyrnas yn ôl Henry Vincent. Ac yn ardal Pont-y-pŵl y trigai William Lloyd Jones, actiwr a droes i drwsio clociau a phersonoliaeth atyniadol dros ben. A dyna i chi David Davies y glowr a wasanaethodd ym myddin Prydain am 25 mlynedd gan gynnwys Brwydr Waterloo. Yn y Coed-duon ceid glowyr cyffredin â digonedd o ruddin. Yn eu plith yr oedd Gwyddel a gymerasai ran yng Ngwrthryfel 1798; Richard Rorke oedd ei enw a dyna hefyd oedd enw ei fab. Gŵr arall na ddylid ei anghofio oedd John Rees, y saer maen, neu Jack the Fifer o Dredegar. Ymfudodd i America ac ymuno â charfan o wŷr Texas i ymladd yn erbyn Mexico ym mrwydr San Anton, San Antonio de Bexar. Goroedd y dial a'r lladd enbyd a ddilynodd hynny. Dychwelodd i Brydain a chael gwaith ym Manceinion a Llundain cyn dod yn ôl i Gymru. Fe'i penodwyd i weithredu fel comander adeg cythrwfl Casnewydd. Ar ôl colli'r dydd, dihangodd i Texas

lle bu'n gwasanaethu eto fel swyddog ym myddin y dalaith cyn ymgartrefu ar lannau Afon Colorado. "We are part of a gigantic world movement", oedd sylw un o'r bechgyn a ddaliwyd yng Nghasnewydd.

Roedd ganddyn nhw gynllun—cynllun a luniwyd ar ôl i'w Deiseb gael ei gwrthod ac ar ôl i'w harweinwyr yn cynnwys Henry Vincent a William Edwards y pobydd gael eu dâl. Tasg Siartwyr De Cymru oedd rhoi cychwyn i'r gwrthryfela. I ddefnyddio geiriau Che Guevara yn ein cyfnod ni, y nhw fyddai'r motor bach a gynhyrchai'r wreichionen i gychwyn y motor mawr. Gwrthryfela oedd nod Siartwyr De Cymru a chreu yng ngeiriau'r Times deyrnas y Siartwyr yn y De neu'r Weriniaeth Gymreig i ddefnyddio disgrifiad y gwrthryfelwyr eu hunain neu Weriniaeth y Silwriaid fel y galwyd hi rai blynyddoedd yn ôl gan Harri Webb. Unwaith y cyrhaeddai'r newydd Sir Gaerhifryn, West Riding Swydd Efrog, Canolbarth Lloegr a Llundain, yr oedd Siartwyr y rhanbarthau hynny i godi gwrthryfel a'u galluogai i sefydlu Gweriniaeth Pobl Ynys Prydain. I ddyfynnu geiriau W. E. Adams, yr engrafiwr radical, De Cymru a fyddai "Cockpit of the Kingdom".

Nid breuddwyd mohono. Roeddent o ddifri. Pan glywodd Geordies y Gogledd Ddwyrain am y gorymdeithio i Gasnewydd, rhybuddiwyd 65 o gyfrinfeydd y Siartwyr yn y rhanbarth hwnnw i gael eu gwŷr a'u harfau'n barod ac ar blacardiau sgriblwyd geiriau croch fel "The Hour of British Freedom has struck! John Frost is in possession of South Wales at the head of 30,000 men!" Y cynllun oedd cael 7,000-8,000 o wŷr arfog ynghyd. Dyna a wnaed ac roedd y gwŷr hynny i gribo'r wlad a dod o hyd i gymaint ag a allent o wŷr a gydymdeimlai â'r achos. Ysgwrio'r cymoedd oedd yr union eiriau a ddefnyddid. Yma eto buont yn eithaf llwyddiannus. Erbyn y diwedd, roedd ganddynt gynifer â 20,000 o wŷr yn barod i'r gad. Y cam cyntaf fyddai meddiannu'r gweithfeydd haearn i gynhyrchu arfau. Yna byddent yn herwigipio arweinwyr y gwahanol gymunedau ac yn eu carcharu yn y pyllau glo. Mewn un pwl arbennig paratowyd un o'r corneli salaf ar gyfer caethiwo Arglwydd Raglaw Sir

Fynwy, Capel Hanbury Leigh. Yn y Coed-duon tynnwyd rhestr o'r rhai a gâi eu saethu. Meddiannu'r banciau fyddai un o'r gorchwylion eraill. Fe fyddent hefyd yn denu milwyr i ymadael â'u catrodau ac ymuno â'r gwrthryfelwyr. Mae'n wir i ugeiniau o filwyr a ruthrwyd i Dde Cymru wneud felly ac o hynny y cododd y gred dyngedfennol na fyddai'r milwyr yn debygol o danio at y bobl. O ganlyniad bu'n rhaid i'r Llywodraeth arfogi'r dosbarthiadau canol,—â chleddyfau cwt a phistolau'n amlach na pheidio.

Y bwriad oedd lansio pum ymosodiad yr un pryd ar 5 Tachwedd—Diwrnod Guy Fawkes. Gwŷr Merthyr oedd i gipio barics Aberhonddu, gwŷr Tredegar i oresgyn y Fenni, gwŷr Pontypridd i gipio Caerdydd a gwŷr Pont-y-pŵl i gipio Brynbuga. Gan bumed golofn yn gweithio o fewn y dref y câi Casnewydd ei chipio a gwŷr y Coed-duon yn dod draw i estyn cymorth. I ddal eu tir ar hyd glannau Wysg a Hafren, fe wnâi'r Weriniaeth Silwraidd alw am gymorth eu cymrodor mewn rhannau eraill o Brydain.

Ar y funud olaf, newidiwyd y cynlluniau. Dychwelodd John Frost i Gymru â'r newydd nad oedd sicrwydd y byddai gogledd Lloegr yn ymuno â'r gwrthryfel. Hynny neu beidio, penderfynu mynd ymlaen â'u cynlluniau a wnaeth Siartwyr De Cymru. Yn awr, roeddent i ymosod ddiwrnod ynghynt sef ar 4 Tachwedd a'r gweddill o'r unedau ar ddyddiadau gwahanol. Methu'n llwyr fu eu hanes. Roedd hi'n noswaith anhrugarog o wlyb i'r miloedd anelu am Gasnewydd. Clywsant i'r bumed golofn gael eu rhwydo. Rhaid oedd rhuthro ar y Westgate Hotel i geisio eu rhyddhau. Collodd tua dau ddwsin o Siartwyr eu bywydau yn y fan a'r lle. Ceir tystiolaeth i'r colofnau eraill geisio cadw at y gorchmynion newydd a gawsant ac i hynny greu mwy a mwy o ddryswch. Trannoeth gwyddom i 400 o Siartwyr gychwyn allan o Ddowlais, ond wrth groesi'r Bannau, clywsant am fethiant trychinebus Casnewydd. Dyna nhw'n gwahanu ar unwaith, a gwahanu yn yr un modd a fu hanes y colofnau eraill hefyd.

Yna fe ddaeth y dyddiau dial a'r erlid, Frost, Zephaniah Williams a William Jones yn cael eu dedfrydu i farwolaeth, yr ymgyrchu dygn i atal y dienyddio, eu halltudio, eu codi'n ferthyron a John Frost yn dychwelyd yn y diwedd i gael ei dderbyn fel arwr. O bell ffordd, ni ddaeth Siartaeth i ben yn

1839. Mewn amryw o ffyrdd gellir ei hystyried fel man cychwyn a dechrau cyfnod newydd. O fewn ychydig o wythnosau ym Merthyr, roedd Morgan Williams yn lansio Udgorn Cymru,—prif bapur y Siartwyr. Yn 1843, pan drechwyd y streic gyffredinol, dyna pryd y trechwyd Siartaeth mewn gwirionedd. Yn llechwraidd a dirgel o dan y wyneb y bu'r Siartwyr wedi hynny cyn codi i'r wyneb unwaith yn rhagor gydag ymchwydd Rhyddfrydiaeth y 1860au.

Yn y 1860au gwelwyd Siartaeth yn adfywio yn y Cymoedd. Yn 1862 lansiodd y Siartwyr eu papur newydd sef y Merthyr Star ac achosi cryn bryder i Anghydfurfwr a Rhyddfrydwyr dosbarthiadau canol y dref. Cyn gynted ag y cafodd y gweithwyr lleol yr hawl i bleidleisio yn dilyn Deddf Diwygio 1867, aethant ati i wahodd Henry Richard Tregaron i ymladd am sedd Merthyr. Henry Richard oedd yr Anghydfurfiwr Radical cyntaf o Gymru i gael ei ethol i Westminster ar ôl apelio'n fwriadol at y Siartwyr, seilio ei ymgyrch ar faterion a berthynai i'r dosbarth gweithiol a dibynnu ar bleidleisiau gweithwyr i'w gario i fuddugoliaeth. Adeg yr etholiad, eisteddai amryw o Siartwyr ochr yn ochr â Henry Richard ar y llwyfan. Yn eu plith, rwy'n falch o ddweud, roedd rhai o'm hynafiaid sef Roger Herbert a gadwai ysgol Siartwyr yn Nant-y-glo ynghyd â'i chwaer Sarah Herbert a weithiai fel cynrychiolydd etholiad Henry Richard yn Nowlais. Fy hen famgu oedd hi.

Felly, yn y diwedd, mae'n deg dweud mai'r Siartwyr a enillodd y dydd. Wydden nhw ddim o hynny ar y pryd wrth gwrs. Yn dilyn y cythrwfl aflwyddiannus yng Nghasnewydd, yn nwylo'r beirdd a'r dramodwyr y gadawyd y gwaith o ail ennyn ffydd a chodi calonau'r Siartwyr. Cofiwch y Shell ifanc a'i aberth, meddai'r bardd

Silurian Frosts again shall lead us on

And freedom's baffled battle yet be won

Yng Nghymru heddiw rydym yn byw yng nghysgod 1979, blwyddyn y pla, a chysgod yr etholiad cyffredinol diweddaraf. O edrych ar yr ymadrodd 'freedom baffled battle', efallai y teimlwn mai 'baffled' sy'n hawlio'r prif

bwyslais ac mae'n bosibl y deawn eto wyneb yn wyneb â 'Silurian Frost' tra gwahanol i'r hyn a ragwelid gan y bardd.

Paid â phoeni, yr hen ffrind, fe fuon ni'r ffordd hon o'r blaen. Mewn stad o argyfwng parhaol y bu'r Cymry'n byw oddi ar tua 383 O.C. pan ddaethom i gymryd ein lle fel pobl ar y llwyfan am y tro cyntaf. Oddi ar hynny, rydym wedi llwyddo i oroesi argyfwng wrth gwt argyfwng o un genhedlaeth i'r llall drwy ein hail-ddyfeisio ein hunain o hyd ac o hyd. Os gallwn fod yn ddigon dewr, fe lwyddwn i wneud hynny unwaith eto.

Rwyf am ddiweddu drwy ddyfynnu'r geiriau a ddefnyddiwyd gan y Dr. William Price wrth ffarwelio â'r gŵyr a oedd ar eu ffordd i Gasnewydd yn 1839. "Maent wedi cychwyn ar y daith hir sy'n arwain at Gyfiawnder", oedd ei eiriau. Ar y ffordd honno rydym ni o hyd. Fe fydd hi'n daith hir, yn daith anodd ac yn daith garegog. Cymerwch gysur. Fe fuodd ein cyndadau ni ar y ffordd hon o'r blaen. Ennill wnaethon nhw yn y diwedd. A dyna a wnawn ninnau.

The Silurian Republic

Let me begin by showing you a flag. This is the banner of the Welsh Chartists. HTV had one made to wave on a TV screen for ten seconds. It has passed into my possession. The method by which it HAS passed into my possession I shall not comment on. Suffice it to say that the method was wholly in accord with the Laws of Hywel Dda, Llyfr Blegywryd, of course.

